Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Practis Deintyddol y Trallwng (IDH)

22 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3879-8
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

   Profiad y Claf .......... 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 8

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 11

   Ansawdd yr Amgylchedd .......... 14

6. Y Camau Nesaf .......... 16

   Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol y Trallwng yn 22 Severn Street, y Trallwng, Powys, SY21 7AD, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 22 Ebrill 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol y Trallwng yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Trallwng ym Mhowys. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Bellach, mae'r practis o dan berchenogaeth Integrated Dental Holdings Limited (IDH), a gymerodd yr awenau yn gynnar yn 2014. Mae IDH yn berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig, a nifer o bractisau yn sir Powys yng Nghymru.

Mae Practis Deintyddol y Trallwng yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys naw deintydd ac un deintydd sylfaen (y cam olaf o'r hyfforddiant deintyddol), deg nyrs ddeintyddol, pedwar derbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- *Triniaeth ddeintyddol ataliol*
- *Cyngor a thriniaethau ar gyfer chwyrnu*
- *Cyngor a thriniaethau ar gyfer camweithrediad genol*
- *Corynau*
- *Pontydd*
- *Mewnblaniadau deintyddol*
- *Gwynnu dannedd*
- *Triniaeth orthodontig ar gyfer plant*

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Practis Deintyddol y Trallwng yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Er bod Practis Deintyddol y Trallwng yn brysur iawn drwy'r dydd ar ddiwrnod ein harolygiad, canfuom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd barchus, ac roedd yn ymddangos eu bod yn rhoi digon o amser iddynt.

Canfuom nad oedd y practis wedi bod yn gyson o ran defnyddio systemau ar gyfer casglu adborth gan gleifion, ond roedd hyn wedi gwella wedi i ddatrysiadau IDH ar gyfer adborth cleifion gael eu cyflwyno.

Ar y cyfan, canfuom fod safonau iechyd a gofal yn cael eu cyrraedd. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o le i wella mewn perthynas â chofnodion cleifion, ac o ran goruchwyliaeth gan y rheolwyr a'r cofnodion sy'n gysylltiedig â gofynion rheoleiddiol ymbelydredd ïoneiddio.

Gwnaethom ysgrifennu at y practis ar wahân, yn syth ar ôl yr arolygiad, oherwydd gwelsom nad oedd y cofnodion yn gyflawn ar gyfer hyfforddiant ymbelydredd i ddeintyddion a staff eraill sy'n chwarae rhan mewn cymryd radiograffau, ac roedd yn rhaid i ni gael sicrwydd ar unwaith bod hyn wedi'i ddatrys.

Fe'n hysbyswyd bod newidiadau ar y gweill i'r rheolwyr ar lefel y practis ac ar lefel ranbarthol. Gwelsom hefyd nad oedd systemau rheoli newydd (y rhai sy'n perthyn i IDH) wedi cael eu mabwysiadu na'u gweithredu'n llawn. Roedd llawer o ffeiliau, polisïau a gweithdrefnau'r rheolwyr yn anhrefnus, ac roedd gwybodaeth ar goll ac angen cael ei diweddaru.

Roedd yn destun pryder i ni weld nad oedd y wybodaeth am yswiriant indemniad proffesiynol yn gyflawn ar gyfer pob deintydd, ac ar ôl yr arolygiad gwnaethom ohebu ar unwaith i gywiro hyn.

Roedd y practis yn lân, yn olau ac yn awyrog. Mae'r practis wedi'i leoli dros ddau lawr, gydag amrywiaeth o fannau aros, a chydag ystafelloedd triniaeth ar lefel y llawr daear yn ogystal â'r llawr cyntaf, ac felly mae'r practis yn addas ar gyfer pobl â phroblemau symudedd. Mae angen ailystyried pa mor hawdd ydyw i fynd i mewn i'r adeilad, yng ngoleuni'r gwelliannau eraill (arwyddion) y mae angen eu gwneud i'r tu allan o'r adeilad.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Er bod Practis Deintyddol y Trallwng yn brysur iawn drwy'r dydd ar ddiwrnod ein harolygiad, yn gyffredinol canfuom fod y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd barchus, ac roedd yn ymddangos eu bod yn rhoi digon o amser iddynt.**

**Canfuom nad oedd y practis wedi bod yn gyson o ran defnyddio systemau ar gyfer casglu adborth gan gleifion, ond roedd hyn wedi gwella wedi i ddatrysiadau IDH ar gyfer adborth cleifion gael eu cyflwyno.**

Gwnaethom gasglu adborth gan gleifion yn ystod yr arolygiad hwn drwy ofyn i staff y dderbynfa i ddosbarthu copïau o'n holiadur a argraffwyd ymlaen llaw i gleifion a oedd yn mynychu apwyntiadau ar y diwrnod hwnnw. Gwnaethom dderbyn pump ymateb. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, yn enwedig ynglŷn â ph'un a oedd tîm y practis yn groesawgar, ac ymatebodd pob un o'r pump o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n gadarnhaol iawn, ac at hynny dywedodd dau ohonynt eu bod yn teimlo eu bod yn groesawgar *"iawn"*.

Gwelsom rai atebion o arolwg cleifion blaenorol a gynhaliwyd gan y practis. Dyddiad hwn oedd 2010, ac nid oedd tystiolaeth o unrhyw waith dadansoddi arno, neu o unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon eraill.

Gan fod IDH bellach wedi cymryd awenau'r practis, mae eu systemau ar gyfer ymgysylltu â chleifion a derbyn eu hadborth wedi cael eu cyflwyno yn y Trallwng. Gwelsom dystiolaeth bod cardiau ar gael i'r cleifion adael sylwadau, ac fe'n dangoswyd rhai a gwblhawyd. Gwelsom hefyd enghreifftiau o'r negeseuon testun ar ôl apwyntiadau y mae IDH yn eu hanfon at gleifion, yn ogystal â rhai ymatebion yn benodol am y practis a dderbyniwyd mewn ymateb i hyn. Gan fod y systemau canlynol ar gael, ni fyddwn yn gwneud argymhelliad ar gyfer gwella.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lif rheolaidd a chyson o gleifion yn cyrraedd am eu hapwyntiadau ac yn ffonio ar y ffôn. Gwelsom eu bod yn cael eu trin â pharch yn gyson gan bob aelod o staff a siaradodd â nhw, ac ar un achlysur gwelsom glaf yn herio staff y dderbynfa, ond arhosodd yr aelod o staff yn ddigynnwrf ac yn ddymunol drwy'r sgwrs i gyd.

Roedd y waliau'n ffres ac yn olau yn y dderbynfa a'r mannau aros, ond nid oedd llawer o wybodaeth hyrwyddo iechyd yn cael ei harddangos, ac roeddem yn teimlo y gellid gwella hyn. Gwnaethom awgrymu hyn i'r practis, a gwnaethant

gytuno i ystyried pethau defnyddiol i'w harddangos i'r cleifion eu darllen/edrych arnynt wrth iddynt aros.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, canfuom fod y safonau'n cael eu bodloni. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o le i wella mewn perthynas â chofnodion cleifion, ac o ran goruchwyliaeth gan y rheolwyr a'r cofnodion sy'n gysylltiedig â gofynion rheoleiddiol ymbelydredd ïoneiddio.**

**Gwnaethom ysgrifennu at y practis ar wahân, yn syth ar ôl yr arolygiad, oherwydd gwelsom nad oedd y cofnodion yn gyflawn ar gyfer hyfforddiant ymbelydredd i ddeintyddion a staff eraill sy'n chwarae rhan mewn cymryd radiograffau, ac roedd yn rhaid i ni gael sicrwydd ar unwaith bod hyn wedi'i ddatrys. Mae rhagor o wybodaeth isod.**

Mae gan Bractis Deintyddol y Trallwng naw deintydd, a chan ei fod yn bractis hyfforddi, mae hefyd yn cynorthwyo ac yn cyflogi un deintydd sydd yn ei flwyddyn olaf o hyfforddiant. Roedd nifer o ystafelloedd triniaeth i'r gweithwyr proffesiynol deintyddol hyn ar y ddau lawr, ac roedd nifer o ystafelloedd aros ar gyfer y nifer fawr o gleifion sy'n dod i mewn drwy'r dydd. Roedd nifer fawr o gofnodion cleifion i ni samplu yn ystod yr arolygiad hwn; fodd bynnag, roedd modd i ni edrych ar ddetholiad o gofnodion o bob deintydd.

Ar y cyfan, canfuom fod y cofnodion yn gynhwysfawr, ond gwnaethom nodi bod rhai anghysondebau a rhywfaint o le i wella o ran pa mor fanwl yr oedd y deintyddion yn cofnodi'r agweddau hynny ar hanes cymdeithasol claf sy'n gallu effeithio ar eu hiechyd deintyddol. Canfuom hefyd nad oedd yr holl gofnodion yn nodi'n glir p'un a wnaed sgrinio canser, ac os oedd hyn wedi'i wneud, p'un a oedd y claf wedi cael esboniad ohono.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r deintyddion sicrhau eu bod yn gwneud cofnod o'r holl sgrinio ac o unrhyw ganfyddiadau a nodir o ganlyniad i hyn.***

Gwnaethom edrych ar sut mae'r practis a'r deintyddion unigol yn ymdrin â'r dyletswyddau a'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn â sicrhau diogelwch mewn perthynas â defnyddio offer radiograffig a chymryd sganiau pelydr-X. Canfuom fod diffyg cyffredinol o ran goruchwyliaeth gan reolwyr er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau a'r hyfforddiant angenrheidiol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig. Roedd ffeil yn cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, ond roedd hon yn anhrefnus ac roedd angen diweddaru rhai rhannau (er enghraifft, roedd y cynllun wrth gefn a rhai polisïau eraill yn dyddio yn ôl i 2008/09). O fewn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll; er enghraifft, nid oedd y wybodaeth ynglŷn â'r mannau a reolir yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn

gyflawn. Yn yr ystafelloedd triniaeth eu hunain, roedd y Rheolau Lleol wedi eu harddangos. [4]

Roedd y cofnodion yn dangos mai 2011 oedd y tro diwethaf bod yna wedi bod archwiliad o ansawdd delweddau pelydr-X, ond dylai hyn gael ei wneud bob blwyddyn. Gwnaethom drafod hyn â'r deintyddion a oedd yn bresennol ar gyfer ein sesiwn adborth ar ddiwedd ein harolygiad, ac fe'u hysbyswyd bod angen gwneud hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cynnal archwiliad blynyddol o ansawdd delweddau pelydr-X.***

Yn ystod ein harolygiad, gofynnom i weld tystiolaeth yn dangos bod gan yr holl ddeintyddion a gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd radiograffau yn y practis hyfforddiant perthnasol a chyfredol. Nid oedd gan reolwr y practis gofnodion cyflawn ar gyfer yr holl staff, ac felly ni ddangosodd y dystiolaeth hon i ni, ac ni roddodd unrhyw sicrwydd i ni bod cydymffurfiaeth â'r gofyniad gorfodol hwn am hyfforddiant (o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000). Roedd hyn yn ddigon o destun pryder i ni ein bod wedi gohebu ar wahân â Phractis Deintyddol y Trallwng IDH, ac o ganlyniad, mae'r ymarferwyr sydd â hyfforddiant a ddaeth i ben bellach wedi cwblhau hyfforddiant addas neu wedi cael eu hatal rhag cymryd radiograffau nes iddynt gael hyfforddiant. Dangoswyd tystiolaeth i AGIC hefyd, ac mae hyn wedi rhoi sicrwydd i ni bod hyn wedi'i wneud.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Yn y dyfodol, rhaid i IDH sicrhau bod y practis yn cadw cofnodion staff manwl gywir a chyfredol yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a'r tystysgrifau hyfforddiant gorfodol.***

Ers i IDH gymryd awenau'r practis, mae'r gwaith o ddadheintio offer yn cael ei wneud mewn ystafell ddadheintio ganolog a leolir ar lawr gyntaf yr adeilad. Fe'n dangoswyd yr ystafell hon, a gwelsom rannau o'r broses, ac yn ogystal â hynny rhoddwyd esboniad i ni o'r gweithdrefnau yn yr ystafell a'r ffyrdd y'i defnyddir. Roeddem yn fodlon ar yr hyn a welsom. Roedd yn ymddangos bod proses glir ar waith i sicrhau bod offer brwnt yn cael ei gadw i ffwrdd o offer glân, ac roedd cofnodion yn ymwneud ag offer yn yr ystafell ar gael hefyd, ac yn gyfredol.

---

[4] Rheolau lleol: mae hyn yn cyfeirio at set o gyfarwyddiadau allweddol ar gyfer gweithio; mae'r rhain yn ofynnol ac mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau bod cysylltiad staff yn cael ei gyfyngu.

Dywedodd rhai o'r deintyddion wrthym nad oedd y profiad o ddefnyddio un ystafell ddadheintio ganolog wedi bod yn gwbl gadarnhaol. Gynt, gwnaed gwaith dadheintio yn yr ystafelloedd triniaeth, ac felly roedd deintyddion a nyrsys deintyddol yn gweithio ochr yn ochr drwy sesiynau'r clinig. Ers i'r ystafell ganolog gael ei chreu, roedd nyrsys deintyddol bellach yn gorfod gadael y deintyddion a'r claf am gyfnod wrth iddynt gwblhau'r dasg hanfodol hon. Am ddau ddiwrnod bob wythnos, cynhelir clinigau orthodontig pediatrig yn y practis, a dywedodd y deintydd hwn wrthym ei fod yn teimlo y dylai'r nyrs ddeintyddol fod yn bresennol bob amser ar yr adegau hyn, er mwyn bod yn warchodwr ac er mwyn rhoi cymorth clinigol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH gynnal asesiad risg yn ymwneud â rhedeg clinigau orthodontig pediatrig tra nad oes nyrs ddeintyddol yn bresennol, er mwyn penderfynu a oes angen cymorth ychwanegol gan nyrs ddeintyddol ar yr adegau hyn.***

Er bod y cofnodion a welsom ynglŷn â gwaith cynnal a chadw ar amryw ddarnau o gyfarpar yn gyfredol ac yn drefnus, gwnaethom nodi nad oedd system ar waith i gynnal gwiriad sylfaenol dyddiol ar y cywasgydd. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis roi hyn ar waith, a gwnaethant gytuno i wneud hyn.

Gwelsom fod gan yr holl staff hyfforddiant cymorth cyntaf a dadebru cyfredol, roedd y swyddogion cymorth cyntaf enwebedig wedi eu nodi'n glir, roedd yr holl feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'i storio'n ddiogel, ac roedd systemau i sicrhau y byddai'r feddyginiaeth yn cael ei newid cyn i'w dyddiad ddod i ben.

Roedd gwybodaeth am gwynion wedi'i harddangos ar yr hysbysfwrdd yn y brif dderbynfa, ond roedd hon mewn print mân ac nid oedd yn rhoi manylion llawn y weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai rhywun am wneud cwyn. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis y dylid cael gweithdrefn sydd ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar p'un a yw'r claf yn cwyno am driniaeth y GIG neu driniaeth breifat, ac y dylid hefyd cynnwys manylion AGIC a'r Ombwdsmon.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i IDH lunio polisi a gweithdrefn gwyno sy'n cydymffurfio â'r polisi corfforaethol ond sy'n benodol i bractis y Trallwng ac yn addas ar gyfer cleifion o Gymru, ac sy'n dangos gwybodaeth ar wahân am y gweithdrefnau ar gyfer cwyno am driniaeth breifat a thriniaeth ar y GIG.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Fe'n hysbyswyd bod newidiadau ar y gweill i'r rheolwyr ar lefel y practis ac ar lefel ranbarthol. Gwelsom hefyd nad oedd systemau rheoli newydd (y rhai sy'n perthyn i IDH) wedi cael eu mabwysiadu na'u gweithredu'n llawn. Roedd llawer o ffeiliau, polisïau a gweithdrefnau'r rheolwyr yn anhrefnus, ac roedd gwybodaeth ar goll ac angen cael ei diweddaru.**

**Roedd yn destun pryder i ni weld nad oedd y wybodaeth am yswiriant indemniad proffesiynol yn gyflawn ar gyfer pob deintydd, ac ar ôl yr arolygiad gwnaethom ohebu ar unwaith i gywiro hyn. Mae rhagor o wybodaeth isod.**

Prynwyd y practis gan IDH yn y flwyddyn cyn ein harolygiad. Er gwaetha'r cyfnod amser hwn, roedd sawl maes lle nad oedd rhai systemau newydd penodol wedi cael eu gweithredu, a lle roedd hen bolisïau (cyn i IDH ddod i berchenogion) yn dal i fod yr unig rai a ddefnyddid.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i IDH adolygu holl bolisïau'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a'u bod yn benodol i'r practis. Rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o le i ddod o hyd iddynt, a rhaid i IDH roi cyfle iddynt ddeall cynnwys polisïau sy'n arbennig o berthnasol i'w maes gwaith.***

Roedd yn nodedig, yn ystod ein harolygiad, bod rheolwr y practis wedi ein hysbysu ei fod wedi cael swydd rhywle arall, ac y byddai'n gadael cyn hir. Nid oedd gan y staff unrhyw wybodaeth ynglŷn â phwy fyddai'n llenwi ei swydd unwaith iddo fynd, ac fe'n hysbyswyd hefyd y byddai'r rheolwr ardal sy'n ymdrin â'r practis yn newid, gan arwain at fwy o ansicrwydd fyth ynglŷn â llywodraethu a chyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH sicrhau bod staff y practis yn ymwybodol o linellau atebolrwydd, ac o staff allweddol IDH sydd ar gael bob amser i roi cymorth ac arweiniad, ac i wneud penderfyniadau.***

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion staff; roedd cymysgedd o gofnodion papur a chofnodion electronig ar gael, ond nid oedd modd i ni weld unrhyw gofnodion staff cyflawn er gwaethaf y cyfuniad o fathau o gofnodion a dulliau storio. Nid oedd yn ymddangos bod rheolwr y practis yn deall yn glir pa gofnodion y dylai fod yn eu cadw, ac o'r hyn y byddai IDH yn parhau i fod yn gyfrifol amdano ar lefel gorfforaethol. Un enghraifft o hyn yn cael effaith

negyddol oedd nad oedd gan reolwr y practis gopïau o yswiriant indemniad proffesiynol cyfredol ar gael ar gyfer pob deintydd, ac nid oedd yn gallu dod o hyd i'r rhain ar system electronig IDH ychwaith. Roedd y bwlch hwn yn ddigon o destun pryder i ni ein bod wedi ysgrifennu ar wahân drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, a gwnaethom ofyn i'r practis ddod o hyd i'r tystysgrifau yswiriant ac anfon copïau atom. Rydym yn gallu cadarnhau bod hyn wedi'i wneud a bod y mater wedi cael ei ddatrys.

Gwnaethom drafod faint o gymorth a roddwyd i'r practis, er mwyn eu helpu i drosglwyddo o berchenogaeth breifat i berchenogaeth gorfforaethol, ond fe'n hysbyswyd nad oedd hyn wedi bod yn gyson. Mae'r bwlch hwn a welsom yn y wybodaeth yn dangos y dylai IDH ystyried cynnig rhagor o gymorth yn awr er mwyn sicrhau bod yr holl systemau rheoli corfforaethol sydd eu hangen yn cael eu hintegreiddio'n llawn i strwythurau dyddiol Practis Deintyddol y Trallwng.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH sicrhau bod rheolwr y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau, a'i fod yn gallu cynnal yr holl gofnodion y mae'n rhaid eu cadw a'u diweddaru'n lleol.***

Gwelsom rai cofnodion o gyfarfodydd staff, ond yn flaenorol nid oedd y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac nid oedd y cofnodion yn ddigon cynhwysfawr i ddangos tystiolaeth glir bod dysgu a datblygu o ganlyniad i ymgasglu fel tîm.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a rhaid iddynt gael eu cofnodi'n ddigon manwl fel bod y pwyntiau dysgu a'r penderfyniadau a wneir ynddynt yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir.***

Ar adeg ein harolygiad, dywedodd rheolwr y practis nad oedd system ar waith ar gyfer arfarniadau blynyddol, a'i fod yn ymwybodol bod gan IDH system ar gyfer hyn a fyddai'n cael ei gweithredu'n fuan.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i IDH sicrhau bod system ar gyfer arfarniadau blynyddol yn y practis yn cael ei gweithredu a'i chynnal.***

Gwnaethom drafod y gofynion ynglŷn â sicrhau bod gan ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Cafwyd rhywfaint o ddryswch ynghylch y mater hwn, ac roedd rheolwr y practis o'r farn bod angen diweddaru tystysgrifau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob blwyddyn. Cyn ein harolygiad, roedd rheolwr y practis wedi nodi nad oedd holl

dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, ac esboniodd inni ei fod wrthi'n cael gwiriadau newydd ar gyfer pob aelod o staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom egluro'r gofynion, a chytunodd rheolwr y practis i sicrhau bod yr holl wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu diweddaru ar yr adeg hon, a chytunodd i gydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer eu diweddaru yn y dyfodol. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gan gyfeirio at y drafodaeth uchod, rhaid i IDH gyflwyno gwybodaeth i AGIC am statws gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y staff ym Mhractis Deintyddol y Trallwng.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd y practis yn lân, yn olau ac yn awyrog. Mae'r practis wedi'i leoli dros ddau lawr, gydag amrywiaeth o fannau aros, a chydag ystafelloedd triniaeth ar lefel y llawr daear yn ogystal â'r llawr cyntaf, ac felly mae'r practis yn addas ar gyfer pobl â phroblemau symudedd. Mae angen ailystyried pa mor hawdd ydyw i fynd i mewn i'r adeilad, yng ngoleuni'r gwelliannau eraill (arwyddion) y mae angen eu gwneud i'r tu allan o'r adeilad.**

Mae Practis Deintyddol y Trallwng IDH yn cael ei redeg o dŷ tref mawr wedi ei addasu yng nghanol y Trallwng. Ar adeg ein harolygiad, yr unig arwyddion a oedd y tu allan i'r adeilad oedd un nodyn A4 a oedd wedi'i lamineiddio ar bapur gwyn. Nid oedd unrhywbeth i ddangos mai practis IDH oedd hwn, ac nid oedd y nodyn dros dro hwn yn dangos yn glir mai practis deintyddol oedd yr adeilad, oni bai eich bod yn mynd yn agos ato.

Roedd IDH wedi cymryd awenau Practis Deintyddol y Trallwng ryw 14 o fisoedd cyn inni gynnal ein harolygiad. Yn ystod y cyfnod hwn, dywedodd y staff wrthym fod rhywfaint o waith cynnal a chadw wedi'i wneud. Fodd bynnag, tra bod hyn yn cael ei wneud, cafodd pob arwydd y tu allan i'r practis ei dynnu i lawr, ac roedd y staff wedi bod yn aros am yr arwyddion newydd â logo IDH arnynt i fynd y tu mewn i'r practis. Roedd rhestr o brisiau wedi'i harddangos y tu mewn i'r dderbynfa, ond nid oedd enwau'r ymarferwyr deintyddol a weithiai yn y practis wedi eu harddangos unrhywle.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai IDH osod arwyddion priodol ar unwaith y tu allan i'r adeilad, a sicrhau bod enwau'r deintyddion a'u rhifau cofrestru ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi eu harddangos hefyd.***

Ceir mynediad at yr adeilad ei hun drwy fynd i lawr stryd gefn ac i mewn drwy ddrws ar yr ochr. Roedd y drws yn cael ei gadw ar gau, ac nid oeddem yn teimlo'n hyderus y byddai'r fynedfa hon yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, ond fe'n hysbyswyd nad oedd hyn erioed wedi bod yn broblem o'r blaen. Byddem yn annog IDH i ailystyried p'un a ellid gwneud y fynedfa'n fwy hygyrch, a byddai cynnal asesiad risg yn fodd cadarnhaol o ddechrau hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Cynnal asesiad risg o ba mor addas a hygyrch yw'r brif fynedfa ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, er mwyn penderfynu pa welliannau y gellid eu gwneud.***

Roedd yr adeilad yn olau ac yn awyrog y tu mewn, ac fe'n hysbyswyd bod llawr newydd wedi'i osod drwy'r adeilad i gyd yn ddiweddar, a bod yr holl fannau ynddo wedi cael eu hailbaentio. Roedd pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân a thaclus; roedd gan rai ystafelloedd osodion a ffitiadau a oedd yn amlwg yn fwy newydd na'r rhai yn yr ystafelloedd eraill, ond roedd y safon gyffredinol yn dda yn hyn o beth. Gwnaethom nodi nad oedd y llawr mewn rhai o'r ystafelloedd triniaeth yn cyrraedd lefel y bordiau wal, ond nid oedd hyn yn wir mewn ystafelloedd eraill. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a gwnaethom eu cynghori y dylid ailddarllen y canllawiau ar gyfer gorchuddio'r lloriau i weld a ydynt yn cydymffurfio ag arferion gorau ai peidio.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflawni Safonau Iechyd a Gofal, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol y Trallwng yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso yn rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol y Trallwng

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Ebrill 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 8. | ***Dylai'r deintyddion sicrhau eu bod yn gwneud cofnod o'r holl sgrinio ac o unrhyw ganfyddiadau a nodir o ganlyniad i hyn. (Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5 a 4.2)*** | | | |
| 9. | ***Dylid cyflwyno archwiliad blynyddol o ansawdd delweddau radiograffig. (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000)*** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 9. | ***Yn y dyfodol, rhaid i IDH sicrhau bod rheolwr y practis yn cadw cofnodion staff manwl gywir a chyfredol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a'r tystysgrifau hyfforddiant gorfodol. (Safon Iechyd a Gofal 7.1)*** | | | |
| 9. | ***Dylai IDH gynnal asesiad risg yn ymwneud â rhedeg clinigau orthodontig pediatrig tra nad oes nyrs ddeintyddol yn bresennol, er mwyn penderfynu a oes angen cymorth ychwanegol gan nyrs ddeintyddol ar yr adegau hyn. (Safon Iechyd a Gofal 2.7)*** | | | |
| 10. | ***Rhaid i IDH lunio polisi a gweithdrefn gwyno sy'n cydymffurfio â'r polisi corfforaethol ond sy'n benodol i bractis y Trallwng ac yn addas ar gyfer cleifion o Gymru, ac sy'n dangos gwybodaeth ar wahân am y gweithdrefnau ar gyfer*** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***cwyno am driniaeth breifat a thriniaeth ar y GIG.*** | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 11. | ***Rhaid i IDH adolygu holl bolisïau'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a'u bod yn benodol i'r practis. Rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol o le i ddod o hyd iddynt, a rhaid i IDH roi cyfle iddynt ddeall cynnwys polisïau sy'n arbennig o berthnasol i'w maes gwaith. (Safon Iechyd a Gofal 3.3)*** | | | |
| 11. | ***Dylai IDH sicrhau bod staff y practis yn ymwybodol o linellau atebolrwydd, ac o staff allweddol IDH sydd ar gael bob amser i roi cymorth ac arweiniad, ac i wneud penderfyniadau. (Safon Iechyd a Gofal 3.3)*** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 12. | ***Rhaid i IDH sicrhau bod rheolwr y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau a'i fod yn gallu cynnal yr holl gofnodion y mae'n rhaid eu cadw a'u diweddaru'n lleol. (Safon Iechyd a Gofal 7.1)*** | | | |
| 12. | ***Rhaid cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a rhaid iddynt gael eu cofnodi'n ddigon manwl fel bod y pwyntiau dysgu a'r penderfyniadau a wneir ynddynt yn cael eu cofnodi'n fanwl gywir. (Safon Iechyd a Gofal 7.1)*** | | | |
| 12. | ***Rhaid i IDH sicrhau bod system ar gyfer arfarniadau blynyddol yn y practis yn cael ei gweithredu a'i chynnal. (Safon Iechyd a Gofal 7.1)*** | | | |
| 12. | ***Gan gyfeirio at y drafodaeth uchod, rhaid i IDH gyflwyno gwybodaeth i AGIC am*** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***statws gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y staff ym Mhractis Deintyddol y Trallwng. (Safon Iechyd a Gofal 7.1, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008)*** | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 14. | ***Dylai IDH osod arwyddion priodol ar unwaith y tu allan i'r adeilad, a sicrhau bod enwau'r deintyddion a'u rhifau cofrestru ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi eu harddangos hefyd. (Safonau Iechyd a Gofal 2.1, 3.2 a 6.2)*** | | | |
| 14. | ***Cynnal asesiad risg o ba mor addas a hygyrch yw'r brif fynedfa ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, er mwyn penderfynu pa welliannau y gellid eu gwneud. (Safon Iechyd a Gofal 2.1)*** | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................